OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1728 (Cy.168) (C.75)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 12) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - - 1 Gorffennaf 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 216(3), (4) a (5) o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac sydd bellach wedi'i freinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 12) (Cymru) 2008.

2. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 a'r Atodlenni iddi.

Y Diwrnod penodedig

3. 1 Awst 2008 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn Rhan 1 (darpariaethau sy'n dod i rym o ran Cymru a Lloegr) ac yn Rhan 2 (darpariaethau sy'n dod i rym o ran Cymru yn unig) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym arno.

Jane Hutt
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

1 Gorffennaf 2008

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

YR ATODLEN Erthygl 3

RHAN 1

Darpariaethau yn dod i rym ar 1 Awst 2008 o ran Cymru a Lloegr

Y Ddarpariaeth	*Y Pwnc*
Adran 99(2)	Gofynion cyffredinol mewn perthynas â'r cwricwlwm
Adran 100(1)(b), (2)(b), (5)	Dyletswydd i weithredu gofynion cyffredinol
Adran 101(3)(b)	Y cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru
Adran 102	Y cyfnod sylfaen
Adran 104	Gofynion y cwricwlwm ar gyfer y cyfnod sylfaen
Adran 108(1)(a), (2), (6)	Sefydlu Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru drwy orchymyn
Adran 110	Rhoi ar waith mewn perthynas ag ysgolion meithrin etc

RHAN 2

Darpariaethau yn dod i rym ar 1 Awst 2008 o ran Cymru

Y Ddarpariaeth	*Y Pwnc*
Adran 205	Cymhwyso Rhan 5 o Deddf Addysg 1996 i addysg feithrin
Adran 215 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlenni 21 a 22 isod	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau
Atodlen 21, paragraff 46(6)	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
Atodlen 22 Yn Atodlen 3, Rhan 3, diddymu — Deddf Addysg 1996, Adran 410	Diddymiadau

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 1 Awst 2008 y darpariaethau hynny yn Neddf Addysg 2002 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn. Y rhain yw darpariaethau Rhan 7 o Ddeddf 2002

(y cwricwlwm yng Nghymru) na chawsant eu cychwyn eto ynghyd â diwygiadau a diddymiadau canlyniadol ac maent yn ymwneud â chyflwyno'r cyfnod sylfaen yng Nghymru.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol Deddf Addysg 2002 wedi'u dwyn i rym o ran Cymru drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

Darpariaeth	*Dyddiad Cychwyn*	*O.S. Rhif*
Adrannau 14 i 17	31 Mawrth 2003	2002/3185 (Cy.301)
Adran 18(1)	2 Ionawr 2008	2007/3611 (Cy.318)
Adran 18(2)	31 Mawrth 2003	2002/3185 (Cy.301)
Adran 19(6) (yn rhannol)	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 19 (1) i (7) (yn llawn)	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adran 20(1) i (3), (5)	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adrannau 21 a 22	1 Medi 2004	2004/1728 (Cy.172)
Adran 23	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adran 26	2 Ionawr 2008	2007/3611 (Cy.318)
Adrannau 27 a 28	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 29	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 30	1 Medi 2004	2004/1728 (Cy.172)
Adran 31 (yn rhannol)	2 Ionawr 2008	2007/3611 (Cy.318)
(yn llawn)	31 Mawrth 2008	2007/3611 (Cy.318)
Adran 32	1 Medi 2004	2004/1728 (Cy.172)
Adrannau 33 a 34	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adran 35	1 Ebrill 2006	2006/879 (Cy.84)
Adran 36	1 Ebrill 2006	2006/879 (Cy.84)
Adran 37	1 Ebrill 2006	2006/879 (Cy.84)
Adran 38	2 Ionawr 2008	2007/3611 (Cy.318)
Adran 39(1) (yn rhannol)	1 Medi 2004	2004/1728 (Cy.178)
Adran 39 (yn llawn)	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adran 40 (yn rhannol)	1 Medi 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 40 (yn rhannol)	1 Ebrill 2006	2006/879 (Cy.84)
Adran 41	4 Rhagfyr 2003	2003/2961 (Cy.278)
Adran 42	4 Rhagfyr 2003	2003/2961 (Cy.278)
Adran 43	1 Tachwedd 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 46	1 Rhagfyr 2003	2003/2961 (Cy.278)

Darpariaeth	*Dyddiad Cychwyn*	*O.S. Rhif*
Adran 49	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adran 50	31 Mai 2005	2005/1395 (Cy.109)
Adran 51 (yn rhannol)	9 Ionawr 2004	2003/2961 (Cy.278)
(yn rhannol)	31 Mawrth 2004	2004/912 (Cy.95)
(yn rhannol)	31 Mai 2005	2005/1395 (Cy.109)
Adran 52 (yn rhannol)	9 Ionawr 2004	2003/2961 (Cy.278)
(yn llawn)	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adran 53	31 Hydref 2005	2005/2910 (Cy.207)
Adrannau 54 i 56	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adrannau 57 i 59	2 Ionawr 2008	2007/3611 (Cy.318)
Adrannau 60 i 64	1 Awst 2003	2003/1718 (Cy.185)
Adran 72	1 Awst 2004	2004/1728 (Cy.172)
Adran 75 (yn rhannol)	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
(yn llawn)	2 Ionawr 2008	2007/3611 (Cy.318)
Adrannau 97 a 98	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adran 99(1)	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adran 100 (yn rhannol)	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adran 101 (yn rhannol)	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adran 103	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adrannau 105 i 107	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adran 108 (yn rhannol)	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adran 109	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adrannau 111 i 118	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adran 119	1 Hydref 2002	2002/2439
Adran 120(1) a (3) i (5)	1 Hydref 2002	2002/2439
Adran 120(2)	1 Awst 2003	2003/1667
Adran 121	1 Hydref 2002	2002/2439
Adrannau 122 i 129	1 Awst 2003	2003/1667
Adran 130 (yn rhannol)	1 Hydref 2002	2002/2439
(yn llawn)	1 Awst 2003	2003/1667
Adran 131	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adrannau 132 a 133	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adran 134 (yn rhannol)	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)
Adran 135	19 Rhagfyr 2002	2002/3185 (Cy.301)